# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

## Cofnodion (LC1(3)-01-10)

**Dyddiad: 14 Ionawr 2010**
**Amser: 1.00 - 1.54**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rosemary Butler (Cadeirydd), Gorllewin Casnewydd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Nick Ramsay, Mynwy

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Liz Wilkinson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Bethan Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol
Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Tystion

Richard Penn, Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru & Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Frank Cuthbert, Secretary, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Chris Franks. Nid oedd dirprwy.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Val Lloyd. Mae hi wedi ymuno â'r Pwyllgor yn lle Huw Lewis ac fe ddymunodd y Cadeirydd yn dda i Huw yn ei rôl newydd fel Y Dirprwy Weinidog dros Blant.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) - sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Richard Penn, Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Roedd Frank Cuthbert, ysgrifennydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei gynorthwyo.

Camau i'w cymryd:

Cytunodd Richard Penn i ysgrifennu at y Cadeirydd i roi gwybodaeth ar y cylch gwaith eang y mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wrthi'n ei wneud. Yn ogystal, bydd yn rhoi amcangyfrif o wariant y Panel wrth ymchwilio i bynciau penodol a'r gyllideb ar gyfer cymorth gweinyddol.